# ASESIAD O'R DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

## Cyflwyniad

Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 yn cynnwys ymrwymiad i fwrw ymlaen â chamau i "osod terfyn ar nifer yr ail gartrefi, dod â rhagor o gartrefi o dan berchnogaeth gyffredin a thrwyddedu llety gwyliau". Y rheswm dros hyn yw bod Llywodraeth Cymru am gydbwyso anghenion a phryderon cymunedau, yn enwedig mewn perthynas â thai, â buddiannau ehangach o ran yr economi a thwristiaeth gynaliadwy.

Mae'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) ("Bil DTRVA") yn rhoi'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer cynllun trwyddedu llety ymwelwyr. Mae hyn yn adeiladu ar y gofrestr o lety ymwelwyr a darparwyr, fel y'i nodir yn y Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) ("Deddf VARL").

Mae Bil DTRVA yn cynnig y bydd angen i ddarparwyr llety ymwelwyr gael trwydded ar gyfer llety hunanddarpar, hunangynhwysol i ddechrau. Fodd bynnag, ein bwriad yw y bydd trwyddedu yn gymwys i fathau eraill o lety ymwelwyr yn y dyfodol. Gwneir rhagor o waith i ymgynghori ac asesu'r effaith yn ddiweddarach os bydd angen.

Nodau'r cynllun trwyddedu yw:

- cefnogi twristiaeth yng Nghymru drwy roi sicrwydd i ymwelwyr bod llety yn cyrraedd y safonau sylfaenol y byddent yn eu disgwyl.
- cefnogi darparwyr llety drwy ddarparu cyfundrefn glir o safonau gofynnol ar gyfer twristiaeth yng Nghymru, sy'n cefnogi cysondeb, cydymffurfedd ac arferion gorau.
- sicrhau bod llety ymwelwyr hunanddarpar yn cael ei reoleiddio mewn ffordd sy'n fwy cydnaws â'r sector rhentu preifat.
- llunio Cod cyfraith Cymru ar dwristiaeth a fydd yn ymgorffori deddfwriaeth bresennol ar ddatblygu twristiaeth yng Nghymru, gyda'r nod o wella hygyrchedd y gyfraith.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, y bwriad yw y bydd angen i ddarparwyr llety ymwelwyr fodloni amodau penodol cyn iddynt gael eu trwyddedu. Bydd hyn yn cynnwys ymgymryd â hyfforddiant i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau, a phasio'r hyfforddiant hwnnw.

## Cynnal yr asesiad effaith

### Pa dystiolaeth a ystyriwyd er mwyn deall sut mae'r cynnig yn cyfrannu at anghydraddoldeb canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol?

Defnyddiwyd data swyddogol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru lle roeddent ar gael. Fodd bynnag, mae bylchau mawr yn y data ar dwristiaeth yng Nghymru sydd eu hangen i lywio'r asesiad hwn. Er enghraifft, nid yw'r data yn ymwneud â'r rhai sy'n

gweithio mewn busnesau llety ymwelwyr yng Nghymru neu'n berchen ar y busnesau hynny wedi'u dadansoddi yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol. Felly, mae'n anodd dod i gasgliadau am lefel yr effaith y bydd y cynllun trwyddedu yn ei chael ar bobl.

I ychwanegu at y bylchau yn y data, am nad ydynt wedi'u dadansoddi yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol neu grwpiau â nodweddion gwarchodedig, mae'r asesiad effaith hwn yn defnyddio cyfrifon ymarferol ansoddol a gasglwyd gan swyddogion, a data ehangach sydd ar gael ar bobl sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol er mwyn dod i gasgliadau am effaith bosibl rhoi'r cynllun trwyddedu ar waith.

Mae'r cyfeiriadau penodol rydym wedi'u defnyddio wrth ystyried yr effeithiau wedi'u rhestr ar ddiwedd y ddogfen hon.

**Pa wybodaeth a gafwyd drwy ymgysylltu â'r rhai y mae'r cynigion yn effeithio arnynt?**

Bu'r gwaith ymgysylltu a wnaed wrth ddatblygu polisi yn gymorth i lywio ein hasesiadau effaith. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses ymgynghori ac ymgysylltu ym mhennod 4 y Memorandwm Esboniadol.

**Pa wybodaeth a ystyriwyd mewn perthynas â thueddiadau'r dyfodol?**

Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn adnodd sefydliadol pwysig yng Nghymru, a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i helpu llunwyr polisi i ddeall dyfodol Cymru ac ymateb yn briodol. Ystyriwyd yr adroddiad hwn wrth asesu effaith economaidd y Bil. Mae'r paragraffau canlynol yn amlinellu tueddiadau'r dyfodol yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r ddeddfwriaeth hon. Mae dyfyniadau uniongyrchol o'r bil wedi'u nodi'n italig.

Poblogaeth

> *Poblogaeth Cymru ar hyn o bryd yw 3.17 miliwn ac, yn seiliedig ar yr amcanestyniadau presennol, disgwylir iddi gynyddu (***Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn***, StatsCymru), ond mae hynny'n dibynnu ar barhad cyfraddau ffrwythlondeb a marwolaethau yn ogystal â pharhad mewnfudo net, a all ddigwydd neu beidio'.*
>
> *Mae strwythur aelwydydd yng Nghymru yn newid. Rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd yng Nghymru yn cynyddu'n gyson dros yr 20 mlynedd nesaf (***Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl blwyddyn a amrywiad***, StatsCymru), ond mae hyn yn ddibynnol ar amcanestyniadau ansicr iawn o'r boblogaeth. Mae'r tueddiadau mewn perthynas â chyfansoddiad aelwydydd yn dangos cynnydd mewn aelwydydd un person. Mae maint aelwydydd yn lleihau yng Nghymru, a rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd un person yn cynyddu mwy na 10,000 rhwng 2020 a 2043* (**Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl math o aelwyd a'r flwyddyn**, StatsCymru).

Mae'r tueddiadau hyn o ran twf y boblogaeth a'r duedd tuag at aelwydydd un person yn dangos y bydd angen cynyddol am dai priodol a fforddiadwyedd.

Tlodi

*Yng Nghymru, lle mae llai o gyfoeth a llai o bobl yn ennill cyflogau uchel, mae lefelau anghydraddoldeb incwm a chyfoeth yn is na llawer o rannau eraill o'r DU* (**Adroddiad y Prif Economegydd 2020**, *Llywodraeth Cymru*).

*Mae tua un rhan o bump o boblogaeth Cymru yn byw mewn tlodi (wedi'i mesur ar ôl costau tai –* ***Adroddiad y Prif Economegydd 2020****, Llywodraeth Cymru). Fodd bynnag, gan ddefnyddio tlodi incwm cymharol fel mesur, mae lefelau tlodi ledled Cymru wedi gostwng yn raddol ers canol y 1990au (****Canran yr holl unigolion, plant, oedolion oedran gweithio a phensiynwyr sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU rhwng 1994-95 i 1996-97 a 2017-18 i 2019-20****, StatsCymru)... Er bod aelwydydd nad ydynt yn gweithio yn parhau i wynebu'r risg fwyaf o dlodi, mae cyfran y bobl dlawd sy'n byw mewn aelwydydd sy'n gweithio wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf wrth i lefelau diweithdra gynyddu (****Oedolion oedran gweithio mewn tlodi incwm cymharol yn ôl statws economaidd yr aelwyd****, StatsCymru). Mae'r tueddiadau yn y dyfodol mewn perthynas â thlodi yn ansicr, a byddant yn dibynnu'n arbennig ar bolisi Llywodraeth y DU ar les. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cyfraddau tlodi plant yng Nghymru wedi bod yn debyg yn fras i gyfraddau'r DU yn gyffredinol (****Plant mewn tlodi incwm cymharol yn ôl statws economaidd yr aelwyd****, StatsCymru).*

<u>Cyflogaeth</u>

*Dros y 30 mlynedd diwethaf, gwelwyd gwelliant hanesyddol yng nghyfraddau cyflogaeth Cymru o gymharu â'r DU gyfan ac, er bod y cyfraddau wedi aros islaw cyfraddau'r DU gyfan, mae'r sefyllfa yng Nghymru wedi bod yn well dros y blynyddoedd diwethaf nag mewn nifer o wledydd a rhanbarthau eraill yn y DU (***Trosolwg o'r farchnad lafur: Hydref 2021***, Llywodraeth Cymru). Mae lefelau diweithdra wedi bod yn gostwng ledled Cymru ers 2013, er nad yw hyn yn digwydd yn gyfartal ledled y wlad – mae diweithdra wedi lleihau'n sylweddol yn y de-ddwyrain, ond nid yw'r sefyllfa yn y canolbarth wedi newid fawr ddim (***Cyfraddau diweithdra ILO yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn***, StatsCymru). Mae cyfraddau creu swyddi yng Nghymru wedi cynyddu dros y degawdau diwethaf, ond mae hyn wedi digwydd yn anghyfartal.*

<u>Safonau Byw</u>

*Mae safonau byw mewn gwahanol rannau o Gymru wedi dod ychydig yn fwy cyfartal dros amser, er bod rhywfaint o'r cynnydd a wnaed wedi'i wrthdroi yn ystod y blynyddoedd diwethaf (***Adroddiad y Prif Economegydd 2020***, Llywodraeth Cymru)... Mae cynhyrchiant, a gaiff ei lywio'n rhannol gan lefelau addysg a sgìl, ond hefyd gan ddwysedd poblogaeth a lefelau trefoli, yn is yng Nghymru nag mewn unrhyw wlad neu ranbarth arall yn y DU, heblaw Gogledd Iwerddon. Yn Sir y Fflint, Wrecsam, a siroedd y de y mae'r cyfraddau cynhyrchiant uchaf yng Nghymru, ac ym Mhowys y mae'r gyfradd cynhyrchiant isaf ymhlith yr holl is-ranbarthau ym Mhrydain (****What are the regional differences in income and productivity?**** Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).*

Gall polisïau o'r fath i gefnogi diwydiant twristiaeth cynaliadwy gynyddu cynhyrchiant lleol mewn ardaloedd twristiaeth, cefnogi lefelau cyflogaeth a chadw teuluoedd mewn gwaith, gan leihau'r risg o dlodi. Fodd bynnag, efallai fod pobl yn darparu llety ymwelwyr i ategu

incymau isel, y byddai angen iddynt gydymffurfio â'r cynllun trwyddedu er mwyn parhau i wneud hynny.

Y defnydd o'r rhyngrwyd a mynediad ati

*Mae'r defnydd o'r rhyngrwyd yn cynyddu ledled Cymru a'r DU yn ei chyfanrwydd. Mae cyfran yr oedolion yng Nghymru nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd wedi lleihau i tua 10 y cant (**Internet Users**, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Fodd bynnag, mae cyfran y bobl 75 oed a throsodd yn y DU nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd yn cynyddu…*

Sgiliau digidol

*Mae bron un o bob pump o bobl yng Nghymru yn brin o sgiliau digidol sylfaenol, sef y gyfran uchaf ymhlith holl ranbarthau'r DU. Hefyd, mae nifer y bobl sy'n dweud bod ganddynt sgiliau digidol da yn llai yng Nghymru nag yn unrhyw ranbarth arall yn y DU (**Essential digital skills report 2021**, Lloyds Bank).*

Y defnydd o wasanaethau cyhoeddus ar-lein

*Mae'r ffordd y mae pobl yn cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus yn newid. Hefyd, mae'r defnydd cynyddol o'r rhyngrwyd wedi arwain at dwf yn y defnydd o wasanaethau cyhoeddus ar-lein, ynghyd â chynnydd cyffredinol yn nifer y bobl sy'n cael gafael ar wybodaeth, yn lawrlwytho, ac yn cyflwyno ffurflenni swyddogol ar-lein (**Sgiliau rhyngrwyd a gwasanaethau sector cyhoeddus ar-lein: Ebrill 2019 i Fawrth 2020**, Llywodraeth Cymru). Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf yn awgrymu bod 77 y cant o ymatebwyr yng Nghymru wedi defnyddio gwefan o leiaf un gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y 12 mis diwethaf, mai pobl rhwng 35 a 54 oed sydd fwyaf tebygol o ddefnyddio gwefannau gwasanaethau cyhoeddus, ac mai pobl 65 oed a throsodd sydd leiaf tebygol (**Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau,** Llywodraeth Cymru).*

Mae'r dyfyniadau uchod ar y defnydd o'r rhyngrwyd a sgiliau digidol yn nodi'n glir, er gwaethaf y duedd tuag i fyny yn nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ar-lein, fod yn rhaid i unrhyw gynllun sy'n dibynnu ar sianel ddigidol/ar-lein ystyried anghenion y defnyddwyr, er enghraifft o ran lefel y cymorth sydd ei angen.

**Pa ddata a ystyriwyd (cenedlaethol a lleol)**

Wrth ddatblygu deddfwriaeth, rydym yn dadansoddi'r effaith amcangyfrifedig ar y bobl sy'n byw, yn gweithio, yn cymdeithasu ac yn cynnal busnes yng Nghymru.

Defnyddiwyd data swyddogol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru lle roeddent ar gael. Fodd bynnag, mae bylchau mawr yn y data ar dwristiaeth yng Nghymru sydd eu hangen i lywio'r asesiad hwn. Er enghraifft, nid yw'r data yn ymwneud â'r rhai sy'n gweithio mewn busnesau llety ymwelwyr yng Nghymru neu'n berchen ar y busnesau hynny wedi'u dadansoddi yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol.  Felly, mae'n anodd dod i gasgliadau am lefel yr effaith y bydd y cynllun trwyddedu yn ei chael ar bobl.

Cynhaliwyd adolygiad o lenyddiaeth gan Alma Economics ar ran Llywodraeth Cymru i ystyried elastigeddau pris posibl y galw am dwristiaeth yng Nghymru. Un o gyfyngiadau pwysig y gwaith hwn yw nad oes unrhyw astudiaethau penodol i Gymru i gyfeirio atynt a bod y rhan fwyaf o'r astudiaethau yn ystyried mewnlifau teithwyr rhyngwladol yn hytrach na marchnadoedd domestig. Yng Nghymru, preswylwyr y DU yw'r rhan fwyaf o'n hymwelwyr.

Ffynhonnell arall rydym wedi cyfeirio ati'n rheolaidd yw'r Baromedr Twristiaeth. Mae hwn yn rhoi cipolwg ar berfformiad diwydiant yng Nghymru ar ôl pwyntiau pwysig yn y calendr twristiaeth.

Ochr yn ochr â'r setiau data hyn mae casgliad o ffynonellau data. Mae hwn yn dwyn ynghyd niferoedd ymwelwyr a llety ar gyfer mathau gwahanol o sefydliadau (â gwasanaeth, hunanddarpar, gwersylla/carafan, hostelau). Er nad yw'r data hyn yn gyfrif swyddogol o eiddo, maent wedi'u cynnwys er mwyn dangos maint posibl y sector. Mae'r ffigurau'n rhoi rhywfaint o gyd-destun defnyddiol i ddechrau llunio gwybodaeth am effeithiau posibl a chostau gweithredu.

Rydym hefyd wedi ystyried adborth a gawsom fel rhan o'r ymgynghoriad ar gyfer y cynllun trwyddedu a'r ardoll ymwelwyr. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn, a'n gwaith i ymgysylltu â rhanddeiliaid a grwpiau rhanddeiliaid allweddol yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**Rhowch grynodeb o dystiolaeth a dolenni**

Mae'r cyfeiriadau penodol rydym wedi'u defnyddio wrth ystyried yr effeithiau wedi'u rhestr ar ddiwedd y ddogfen hon.

**Sut y gallai'r cynnig o bosibl waethygu'r anghydraddoldeb canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol ymhellach?**

Mae swyddogion wedi gwerthuso effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol bosibl y cynllun trwyddedu ar gyfer llety ymwelwyr ar unigolion a chymunedau sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol yng Nghymru. Cynhaliwyd yr asesiad cynhwysfawr hwn gan ddefnyddio cyfuniad o ddata a oedd ar gael, ymchwil academaidd, a gwaith ymgysylltu uniongyrchol â'r cymunedau dan sylw. Bu ymgysylltu â'r cymunedau hyn yn hanfodol i ddeall effeithiau posibl y cynllun a llywio'r polisi yn unol â hynny. Ceir rhagor o fanylion am y broses ymgynghori ym mhennod 'Ymgynghori' y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil.

Mae 'effaith uniongyrchol' yn cyfeirio at effaith gorfod cael trwydded i weithredu llety ymwelwyr. Mae 'effaith anuniongyrchol' yn cyfeirio at yr effaith ehangach y gallai bodolaeth y cynllun trwyddedu ei chael. Gall y rhain fod yn effeithiau eilaidd neu drydyddol sy'n deillio o'r cynllun trwyddedu.

**Effeithiau posibl cynllun trwyddedu**

Nod y cynllun trwyddedu yw  rhoi sicrwydd i ymwelwyr bod llety yng Nghymru yn cyrraedd y safonau y byddent yn eu disgwyl. Bwriedir iddo hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru, gan gynyddu'r galw ac, felly, gael effaith gadarnhaol ar bobl sy'n gweithio yn y sector twristiaeth.

Rydym yn disgwyl i effeithiau allweddol y cynllun trwyddedu yng Nghymru gynnwys y canlynol:

- Mwy o hyder ymysg ymwelwyr fod llety yn ddiogel, gan gefnogi ein heconomi ymwelwyr.
- Mwy o degwch ar draws y sector llety hunanddarpar, a mwy o hyder bod darparwr yn cyflawni eu rhwymedigaethau diogelwch, gan greu marchnad fwy cystadleuol.
- Cyfres fwy cytbwys o fentrau rheoleiddio, yn enwedig i'r rhai sy'n ymuno â'r farchnad, wrth ddewis gweithredu yn y farchnad llety gwyliau neu'r farchnad eiddo preswyl preifat, fel bod penderfyniadau yn seiliedig ar ffactorau eraill.
- Mae'n bosibl y bydd rhai darparwyr llety achlysurol yn dewis peidio â gosod eu cartref neu ail gartref, gan arwain at leihad bach yn y stoc llety ymwelwyr.

Ni allwn amcangyfrif yn bendant i ba raddau y bydd darparwyr llety ymwelwyr yn trosglwyddo costau ychwanegol trwyddedu i ymwelwyr neu'n ceisio eu hamsugno, neu p'un a fyddai gwneud hynny yn effeithio ar ymddygiad ymwelwyr. Fodd bynnag, mae risg bod rhai o'r darparwyr a fydd yn dewis rhoi'r gorau i weithredu yn ennill incymau isel ac yn ategu eu hincymau drwy ddarparu llety ymwelwyr, a/neu y gallai cynyddu prisiau i adlewyrchu cost ychwanegol y cynllun trwyddedu effeithio ar fforddiadwyedd llety ymwelwyr i bobl ar incymau isel.

Roedd diwydiannau sy'n ymwneud â thwristiaeth yn cyfrif am 11.8% o gyflogaeth (159,000 o swyddi) a 5.1% o GYG (£3.8 biliwn) yng Nghymru yn 2022 [Proffil economi ymwelwyr Cymru: 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU]. Mae'r diwydiant yn chwarae mwy o rôl yng Nghymru nag yng ngwledydd eraill y DU, sy'n golygu y byddai unrhyw achos o golli swyddi neu gynnydd mewn swyddi yn cael mwy o effaith, ar gyfartaledd, nag yng ngwledydd eraill y DU. Nod y Bil yw hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru, ond ar ddarparwyr llety ymwelwyr y bydd yn cael yr effaith fwyaf uniongyrchol. Fodd bynnag, mae data ar nodweddion darparwyr llety ymwelwyr yn gyfyngedig.

Y tâl canolrifol fesul awr yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2021 oedd £12.82 yng Nghymru, ond roedd yn is yn y diwydiannau sy'n ymwneud â thwristiaeth. Ymysg swyddi cyflogeion yn y sector llety a gwasanaethau bwyd, y tâl canolrifol fesul awr oedd £8.91; yn sector y celfyddydau, adloniant a hamdden, y tâl canolrifol fesul awr oedd £9.51; ac yn y sector asiantiaid teithio a gweithredwyr teithiau, y tâl canolrifol fesul awr oedd £9.65; [1]

Mae dadansoddiad SYG o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn 2023 yn nodi 'The lowest-earning employees tend to be younger, aged between 16 and 21 years, and in the elementary occupations or in the hospitality industry.'[2]. Ar sail y set ddata hon ar gyfer y DU gyfan, mae'r dadansoddiad hefyd yn nodi bod 39.1% o weithwyr yn y sector llety a gwasanaethau bwyd ar gyflogau isel. [3][4]

At hynny, caiff cyfran fawr o'r gweithlu twristiaeth rhanbarthol ei nodweddu gan gyflog isel ac amodau gweithio ansefydlog[5], yn enwedig ar gyfer gweithwyr twristiaeth sy'n fenywod neu'n fudwyr a gweithwyr eraill â nodweddion gwarchodedig. [6] Mae natur dymhorol y diwydiant twristiaeth yn golygu y gall fod mwy o swyddi ansicr. [7] Nodwyd y byddai 39% o'r gweithwyr yn y sector llety a gwasanaethau bwyd yn y DU yn cael eu categoreiddio'n weithwyr mewn swyddi ansicr. Mae 56% o'r rhai sydd mewn swyddi ansicr yn y DU yn

ennill llai na'r cyflog byw gwirioneddol, sy'n golygu na all mwy na hanner y rhai mewn swyddi ansicr ddiwallu eu hanghenion sylweddol drwy waith[8].

Yn 2022, cafodd 11.5% o weithwyr yng Nghymru eu categoreiddio fel pobl sy'n cael eu cyflogi mewn gwaith ansicr. Nid yw data sy'n benodol i Gymru wedi'u dadansoddi yn ôl sectorau, ond byddai'n rhesymol tybio bod gweithwyr twristiaeth a gwasanaethau llety yn cyfrif am gyfran fwy o boblogaeth Cymru sy'n gweithio, y nodweddir eu bod mewn gwaith sicr.[9]

Gall pobl mewn ardaloedd trefol a gwledig wynebu heriau a rennir a rhai unigryw, ond mae anfantais economaidd-gymdeithasol i'w weld mewn dinasoedd ac mewn amgylcheddau gwledig. Byddai gostyngiad yn y galw am dwristiaeth yn cael effaith negyddol ar yr economi leol, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n dibynnu'n helaeth ar dwristiaeth mewn ardaloedd arfordirol a mynyddig. Er enghraifft, gallai unrhyw bolisi sy'n arwain at ostyngiad mewn galw olygu y bydd cyflogwyr yn lleihau oriau, yn cynnal llai o brosesau recriwtio, yn gostwng cyflogau neu'n cyflwyno diswyddiadau mewn achosion eithriadol.

Llwyddodd Simpson[10] i grynhoi amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol cyffredin twristiaeth ar les cymdeithasol y gymuned leol, fel gwella seilwaith (ffyrdd, dulliau cyfathrebu, gofal iechyd, addysg, trafnidiaeth gyhoeddus, mynediad i ddŵr yfed); gwella diogelwch a diogeledd lleol neu ranbarthol; hyrwyddo prosesau datblygu gweithlu (e.e. hawliau ac amodau); a hyrwyddo balchder dinesig (mewn cymuned, diwylliant, treftadaeth, adnoddau naturiol a seilwaith.[11]

Mae posibilrwydd y bydd cost cydymffurfio ag unrhyw gynllun trwyddedu, ynghyd â ffactorau eraill sy'n effeithio ar argaeledd cynnal busnes llety ymwelwyr ar hyn o bryd, yn achosi i rai darparwyr llety ymwelwyr adael y farchnad gan leihau nifer y safleoedd sydd ar gael i ymwelwyr. Gall hyn gynyddu cyfran y farchnad i lety ymwelwyr ag enw gwell ac sy'n cael ei redeg yn broffesiynol. Gall hyn, yn ei dro, gynyddu nifer y swyddi sicr o ansawdd uchel a geir mewn ardal leol er gwaethaf y ffaith y collwyd rhywfaint o waith llai sicr. Fodd bynnag, mae'r effeithiau hyn yn ansicr iawn.

Canfu Mynegai Gwaith Ansicr 2022 Sefydliad Gwaith y DU fod gweithwyr anabl yn fwy tebygol o fod mewn gwaith ansicr o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl.[12] Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw newid mewn argaeledd gwaith, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol yn fwy tebygol o effeithio ar bobl anabl, er enghraifft os bydd newid yn y galw am lety ymwelwyr neu os bydd rhai busnesau'n penderfynu gadael y farchnad. Yn unol â datganiadau ystadegol diweddaraf Llywodraeth Cymru, yn 2021, roedd pobl anabl yn cyfrif am 5.7% o'r gweithlu twristiaeth yng Nghymru.[13]

Mae cyfran y bobl anabl yn y gweithlu twristiaeth yng Nghymru, sef 5.7% yn 2021, yn is na chyfran y bobl anabl yn y gweithlu cyffredinol yng Nghymru. Yn ôl y data diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae pobl anabl yn cyfrif am tua 16% o'r gweithlu cyfan yng Nghymru.

Mae hyn yn awgrymu bod pobl anabl yn cael eu tangynrychioli mewn cyflogaeth sy'n gysylltiedig â thwristiaeth o gymharu â sectorau eraill, gan dynnu sylw at faes lle gallai'r diwydiant twristiaeth wella cynhwysiant a hygyrchedd i weithwyr anabl. Gallai cyflogaeth fwy diogel, o ansawdd gwell yn y sector hwn gan ddarparwyr ag enw da wella canlyniadau yn y maes hwn.

Rydym yn disgwyl i'r cynllun trwyddedu gael ei weithredu'n ddigidol. Yn ôl Arolwg PASC o Berchnogion Llety Hunanddarpar yn y DU 2025, mae 54% o berchnogion llety gwyliau ledled Cymru a Lloegr dros 60 oed, ac mae 3.3% ohonynt dros 80 oed. Fel y nodwyd uchod, rydym yn ymwybodol bod tueddiad presennol o ostyngiad yng nghyfran y bobl dros 75 oed sy'n defnyddio'r rhyngrwyd. Hefyd, nid oes gan 1 o bob 5 person yng Nghymru sgiliau digidol. Oherwydd hyn, bydd yn hanfodol cyfathrebu â darparwyr llety ymwelwyr a rhoi cymorth priodol iddynt, ymhell cyn y bydd angen iddynt gael trwydded er mwyn sicrhau na chaiff neb eu hallgáu yn annheg o'r cyfle i redeg eu busnes mewn ffordd sy'n cydymffurfio.

Yn y pen draw, bydd ffactorau ehangach yn dylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr a darparwyr/cyflogwyr, gan gynnwys y cyd-destun macro-economaidd, felly ni fyddai disgrifio union effaith economaidd cynllun trwyddedu yn ddichonadwy. Bydd ffactorau fel y tywydd, yr amser o'r flwyddyn, lefelau incwm gwario, yr hyn y mae cyrchfannau eraill yn ei wneud, cyflwr yr economi a ffactorau eraill yn effeithio ar ymddygiad ymwelwyr.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan o'r radd flaenaf i ymwelwyr a'r buddiannau a ddaw yn sgil hynny. Fodd bynnag, rhaid i hynny olygu cymryd cyfrifoldeb ar y cyd dros reoli'r effaith a gaiff twristiaeth ar ein hamgylchedd ac ar gymunedau lleol. Mewn trosolwg o'r ffynonellau data gwahanol sy'n berthnasol i ail gartrefi yng Nghymru[14], mae nifer y llety gwyliau hunanddarpar wedi treblu bron dros y degawd diwethaf. Yn 2013-14, roedd eiddo hunanddarpar yn cyfrif am 3.6% (3,900) o'r holl eiddo ardrethi annomestig. Bob blwyddyn ers hynny, mae'r gyfran hon wedi cynyddu a chyrhaeddodd 8.8% (11,300) yn 2022-23.

I roi hyn yn ei gyd-destun, parhaodd nifer y gwestai, tai llety a llety hamdden arall yn sefydlog rhwng 2013-14 a 2022-23, heb unrhyw gynnydd na gostyngiad mawr. Daeth Sefydliad Bevan i'r casgliad canlynol yn ei adroddiad ar lety gwyliau a'r sector rhentu preifat: *In Airbnb hotspots it appears likely that the sector is having a direct impact on the availability of rental properties for low-income tenants* [Sefydliad Bevan: Holiday lets and the private rental sector], ond ni wyddys a fydd y rhai sy'n dewis gadael y farchnad yn ychwanegu at y stoc dai lleol ai peidio. Byddai hyn yn dibynnu ar sawl ffactor gan gynnwys a yw'r llety yn cael ei ddefnyddio'n bennaf fel cartref, a gaiff yr eiddo ei roi ar y farchnad, unrhyw gyfyngiadau cynllunio ar ei ddefnydd, a chyflwr a fforddiadwyedd yr eiddo. Fodd bynnag, y bwriad yw y bydd y cynllun trwyddedu yn helpu i gynnal diwydiant twristiaeth cynaliadwy a ffyniannus, gan gefnogi'r cymunedau hynny sy'n dibynnu arno ar yr un pryd.

I gloi, mae'r cynllun trwyddedu arfaethedig ar gyfer llety gwyliau yng Nghymru wedi'i gynllunio i godi safonau a gwella enw da y sector twristiaeth, ond rhoddir ystyriaeth ofalus i'w effeithiau economaidd a chymdeithasol posibl. Mae'r sector wedi'i nodweddu gan lefelau uchel o gyflogau isel a chyflogaeth ansicr, yn enwedig i'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, a gallai unrhyw newidiadau rheoleiddiol effeithio'n anghymesur ar y grwpiau hyn. Ymhellach, mae natur ddigidol y cynllun yn golygu bod angen cymorth cadarn i sicrhau cynhwysiant, yn enwedig i berchnogion hŷn a'r rhai nad oes ganddynt sgiliau digidol. Yn y bôn, bydd llwyddiant y cynllun yn dibynnu ar ymdrechion parhaus i gydbwyso twf twristiaeth, llesiant cymunedol a mynediad teg at gyfleoedd economaidd, gan ymateb yn hyblyg hefyd i ffactorau economaidd ehangach a newidiadau yn y cyflenwad tai.

**Sut y byddwch yn monitro effaith y penderfyniad hwn? (Ystyriwch ganlyniadau ehangach)**

Mae'r Bil hwn yn cyflwyno cynllun trwyddedu statudol ar gyfer llety ymwelwyr yng Nghymru. Rydym yn datblygu cynllun gweithredu manwl i roi'r cynllun ar waith, a fydd yn cynnwys adolygiad ar ôl gweithredu o'r cynllun a gyflawnir gan y Bil.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal yr adolygiad ar ôl gweithredu bum blynedd fan bellaf ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Disgwylir i'r broses adolygu ffurfiol ddechrau pan fydd y cynllun wedi bod ar waith ers blwyddyn.

Bydd amcanion yr adolygiad yn cynnwys:

- asesu effeithiolrwydd y cynllun trwyddedu a gyflwynwyd gan y Bil wrth gyflawni ei amcanion;
- cymharu'r costau a'r buddiannau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, a'r costau a buddiannau a wireddwyd;
- gwerthusiad o effeithiau'r Bil; a
- gwerthusiad o'r mesurau a gymerwyd i roi'r Bil ar waith a'u heffeithiolrwydd o ran cyflawni amcanion y Bil.

Nid yw manylion llawn yr adolygiad wedi'u pennu eto. Byddwn yn cydweithio â rhanddeiliaid allweddol i ddylunio a datblygu'r adolygiad ar ôl gweithredu o'r newidiadau deddfwriaethol, ynghyd ag adolygiad o'r broses o gyflawni'r cynllun trwyddedu statudol. Bydd ein cynllun cyflawni yn cynnwys fframwaith monitro a gwerthuso. Byddwn yn cydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu dulliau priodol ar gyfer casglu tystiolaeth i alluogi gwerthusiad a byddwn yn adrodd ar y cynnydd a wneir.

Bydd yr adolygiad yn ystyried adborth, er enghraifft gan ddarparwyr llety ymwelwyr, prif reoleiddwyr, ymwelwyr, asiantiaid trefnu a rhanddeiliaid eraill.

Bydd y gwerthusiad hwn yn cynnwys adolygiad o'r asesiad effaith integredig. Bydd yr adolygiad yn ystyried a gafwyd unrhyw effeithiau amlwg ar y sector twristiaeth ac yn asesu a oes angen diwygiadau i unrhyw ganllawiau sy'n cefnogi'r broses o weithredu'r cynllun.

Gyda mewnbwn gan randdeiliaid, byddwn yn sefydlu dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y cynllun, ynghyd â metrigau gweithredol clir y gellir eu mesur, eu cymharu a llunio adroddiadau arnynt. Disgwylir i'r adolygiad ar ôl gweithredu fesur cynnydd yn erbyn y rhain. Mae hyn yn debygol o gynnwys metrigau fel cyfraddau cydymffurfio ac effeithlonrwydd gweinyddol.

Mae'n bwysig nodi cyfyngiadau unrhyw adolygiad ar ôl gweithredu yng nghyd-destun sector lle cafwyd sawl ymyriad yn ddiweddar, ac sy'n gweithredu yn erbyn cefndir o ddigwyddiadau byd-eang a grymoedd economaidd a marchnadoedd ehangach. Bydd

angen i unrhyw adolygiad fod yn gyfyngedig o ran y cyd-destun economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol ehangach y mae'r ddeddfwriaeth yn gweithredu ynddi. Mae'n debygol y bydd yn eithriadol o heriol priodoli unrhyw effaith ar y sector llety ymwelwyr i unrhyw ymyriad penodol.

## Llyfryddiaeth

---

[1] Llywodraeth Cymru, Proffil Economi Ymwelwyr Cymru: 2021 | LLYW.CYMRU
[2] SYG, Low and high pay in the UK – y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
[3] *Ibid*
[4] Mae diffiniadau SYG o gyflog isel ac uchel yn seiliedig ar y rheini a ddefnyddir gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), lle y caiff cyflog isel ei ddiffinio fel llai na dwy ran o dair o enillion canolrifol fesul awr a chaiff cyflog isel ei ddiffinio fel mwy na 1.5 gwaith enillion canolrifol fesul awr. Yn 2023, caiff cyflog isel ei ddiffinio fel llai na £10.59 yr awr a chaiff cyflog uchel ei ddiffinio fel mwy na £23.82 yr awr.
[5] TUC (2019), No stars: Low pay in the hotel and accommodation sector
[6] gweler Baum, T., Solnet, D., Robinson, R., a Mooney, S. K. (2020). Tourism employment paradoxes, 1946-2095: A perspective article. *Tourism Review* Mooney, ac S., Ryan, I., a Harris, C. (2017). The intersections of gender with age and ethnicity in hotel careers: Still the same old privileges? *Gender, Work & Organization*, *24* (4), 360–375. Kronenberg, K., a Fuchs, M. (2021b). The socio-economic impact of regional tourism: an occupation-based modelling perspective from Sweden. *Journal of Sustainable Tourism*, 1–21. Ioannides, D., a Zampoukos, K. (2018). Tourism's labour geographies: Bringing tourism into work and work into tourism. *Tourism Geographies*, *20* (1), 1–10
[7] Per Richardson, J. (2021) Y Sefydliad Cyflog Byw. The Insecurity Complex: Low Paid Workers And The Growth Of Insecure Work | Y Sefydliad Cyflog Byw. . Caiff gwaith ansicr ei ddiffinio fel 1) Pobl mewn gwaith nad yw'n barhaol (swyddi achlysurol, tymhorol, cyfnod penodol ac asiantaeth), heb gynnwys unrhyw un a ddywedodd nad oedd am gael swydd barhaol; 2) Pobl sy'n hunangofnodi cyflog ac oriau anwadal, gan gynnwys y rhai ar gontractau dim oriau; 3) Pobl sy'n hunangofnodi cyflog cyson ond oriau anwadal; 4) Pobl hunangyflogedig ar gyflogau isel.
[8] Richardson, J. (2022) UK Data Service How can we tackle work insecurity in the UK? — Gwasanaeth Data'r DU
[9] TUC (2023) Insecure work in 2023 | TUC
[10] Simpson. M.C (2009) An Integrated Approach to Assess the Impacts of Tourism on Community Development and Sustainable Livelihoods gan Murray C. Simpson :: SSRN Community Development Journal, Arg. 44, Rhifyn 2, tt. 186-208, 2009
[11] Gnanapala. A, Rudmi Chehanika Sandaruwani J.A (2016) Socio-economic Impacts of Tourism Development and Their Implications on Local Communities International Journal of Economics and Business Administration 2:59-67

[14] Ail gartrefi: Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? [HTML] | LLYW.CYMRU